

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom  
nos Lun, 7 Rhagfyr 2020 am 7:45p.m.

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes,  
Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

**107. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Gavin Harris.

**108. DATGAN BUDDIANNAU**

Gwnaeth y Cynghorydd Heather Williams ddatgan budd yn Eitem 6 – Ceisiadau Cynllunio o ran 20 Parc y Castell gan ei bod yn adnabod y perchnogion a gwnaeth y Cynghorydd Ifan Wyn ddatgan budd yng nghais 40 Bro Deg fel eiddo cyfagos i'w gartref.

**109. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020 yn gywir.

**110. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**111. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Adroddodd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio isod wedi'u penderfynu gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol.

02/2020/0714 – Y Dalar, Ffordd Cae Glas, Rhuthun – Gwaith i goeden dderwen yn ddangostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed - Caniatwyd

02/2020/0713 - 118 Bro Deg, Rhuthun – Torri coeden yn unol ag amod rhif 5 cais cynllunio rhif 5/02/7804 – Gwrthodwyd

02/2020/0488 – Clwb Rygbi Rhuthun, Lôn Fawr, Rhuthun – Adeiladu adeilad storio yn gysylltiedig â defnydd y safle fel cyfleuster chwaraeon – Caniatwyd

02/2020/0769 - 13 Llwyn Menlli, Rhuthun – Adeiladu estyniad unllawr i flaen ac ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig – Caniatwyd

02/2020/0879 – Tir yng Nglasdir, Rhuthun – Manylion Datganiad Dull Coedyddiaeth a gyflwynwyd yn unol ag amod 5 caniatâd cynllunio rhif 02/2018/0889 - Caniatwyd

**112. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Gwnaeth y Pwyllgor ystyried y ceisiadau cynllunio am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd fel a ganlyn, a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych am sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** *nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau a ganlyn:*

**02/2020/0845 – Tŷ'n y Wern, Ffordd Corwen, Rhuthun**

Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer da byw

*Roedd yr aelodau o blaid cael sylfaen concrid yn yr adeilad ac eisiau sicrwydd y byddai trefniadau draenio boddhaol.*

**02/2020/0393 - 20 Parc y Castell, Rhuthun**

Dymchwel ystafell ardd yn y cefn ac adeiladu estyniad unllawr yn y cefn. Newid y garej ac addasu'r to i ganiatáu ffurfio llety y gellir byw ynddo ar lefel llawr gwaelod a llawr cyntaf

**02/2020/0854 - 23 Stryd Clwyd, Rhuthun**

Newid defnydd o siop (Defnydd Dosbarth A1) i Swyddfa Cyfreithwyr (Defnydd Dosbarth A2)

**02/2020/0855 - 23 Stryd Clwyd, Rhuthun**

Arddangos hysbysebion/arwyddion yn gysylltiedig â chyfreithwyr

**02/2020/0819 - 40 Bro Deg, Rhuthun**

Adeiladu estyniad unllawr ar ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig

*Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch bod digon o le parcio'n parhau ar y safle yn y lleoliad hwn*

**02/2020/0939 – Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun**

Gwaith ar goed amrywiol sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed 21 cyn Gyngor Sir Ddinbych

*Roedd yr aelodau o blaid ailblannu coed newydd o fath addas mewn ardaloedd priodol.*

**02/2020/0912 - Caerfallen, Rhuthun**

Dymchwel y golchdy presennol, adeiladu estyniad newydd yn cynnwys addasiadau mewnol, ffenestri a drysau newydd a gwaith trwsio (cais Adeilad Rhestredig)

*Roedd yr aelodau o blaid cadw llygad archeolegol ar y safle hwn.*

**02/2020/0966 – Maes Elwy, 10A Stryd y Farchnad, Rhuthun**

Adeiladu estyniad unllawr, gosod ffenestr yn y to yn y blaen a gwaith cysylltiedig.

**113. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai nos Lun, 11 Ionawr 2021 am 7.45pm.